

## Tasg 1

# Cyfarfod rhwng y Celtiaid

Rhannwch eich hunain yn dri grŵp.

Dylai'r grŵp cyntaf gynrychioli Llywodraeth **Cymru**, yr ail i gynrychioli Llywodraeth **yr Alban** ac y trydydd i gynrychioli Llywodraeth **Gogledd Iwerddon**.

Gofynnwch i'r athro gynrychioli Llywodraeth **Y Deyrnas Unedig**.

Defnyddiwch y wybodaeth yn yr e-byst fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau wyneb yn wyneb rhwng gwledydd datganoledig Prydain.

Cyn i chi drafod wyneb yn wyneb, fel grwpiau dylech chi baratoi'r pwyntiau trafod canlynol:

- Sut bleidleisiodd eich gwlad chi yn y refferendwm i adael Ewrop?
- Pa flaenoriaethau sydd gan eich gwlad chi yn y trafodaethau i adael Ewrop?
- Pa fath o dactegau ydych chi am eu defnyddio wrth drafod gyda'r arweinwyr eraill?
- Beth rydych chi eisiau ei gael mewn trafodaethau gan Lywodraeth Llundain yn y dyfodol?